

Cylchdaith – Porth Llechog (SH424943)

Gweler y map isod

1. Maes Parcio – Melin Wynt Adfeiliedig


Trowch i'r chwith allan o'r Maes Parcio, yna'n fuan i'r dde, i fyny llwybr cerbyd. Trowch i'r chwith i lwybr arall, a byddwch yn dod at giât mochyn sy'n mynd i mewn i gae. Cadwch at y chwith nes y dowch at gamfa sydd yn union tu draw i giât y cae, yna i'r dde i fyny'r llwybr cerbyd tuag at 'Tŷ Gwyn'. Trowch i'r chwith dros y cae i 'Glasfryn'. Croeswch y lôn fach i lawr i'r cae, gan ddilyn y wal gerrig. Yna cadwch at y chwith dros yr allt at y giât mochyn. Byddwch yn gweld y felin wynt yn glir erbyn hyn. Ewch i lawr i'r pant ar draws afon fechan ac i fyny'r allt rhwng dwy wal gerrig. Ar ben yr allt, byddwch yn cael eich hun yn agos iawn at fuarth fferm a'r felin wynt. Ewch drwy giât y fferm sydd ar y dde i chi.

2. Melin Wynt Adfeiliedig – Porth Wen

Ewch drwy y giât fferm nesaf ar eich chwith, gan gerdded heibio tu blaen fferm 'Pant-Y-Gaseg' ac yna ewch drwy'r giatiau ar ochr chwith y tŷ. Dilynwch y llwybr cul i lawr yr allt, drwy'r giât fferm, i fyny'r allt trwy eithin a thros y gamfa. Cadwch at y dde yn y cae nesaf ac wrth y llwybr trowch i'r chwith. Trowch i'r dde yn y gyffordd. Ewch heibio tŷ 'Porth Wen', ac yna yn union cyn fferm 'Castell' cadwch at y dde trwy'r giatiau fferm a dau set o gilbyst i lwybr yr arfordir.

3. Porth Wen – Maes Parcio

Dilynwch lwybr yr arfordir o amgylch creigiau dwyreiniol 'Porth Wen'. Mae'r llwybr wedi ei ddynodi'r glir a bydd hyn yn eich galluogi i weld ffurfiannau creigiau gwych, y troadau yn y creigiau islaw a'r cilfachau serth. Byddwch yn mynd trwy ddwy giât mochyn a dowch yn y diwedd at farciwr ffordd ar ôl 'Ogof Pwll y Delysg'. Yna cadwch at y dde tuag at y 'Bull Bay Hotel'. Ewch heibio ger ochr y gwesty, trowch i'r dde a byddwch yn gweld y Maes Parcio o'ch blaen.



Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.